Telerau ac amodau'r wefan

1 Cyflwyniad

1.1 Bydd y telerau a'r amodau yn rheoli eich defnydd o'n gwefan.

1.2 Drwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn derbyn y telerau a'r amodau yn llawn; yn unol â hynny, os ydych yn anghytuno â'r telerau a'r amodau hyn neu unrhyw ran o'r telerau a'r amodau hyn, rhaid i chi beidio â defnyddio ein gwefan.

1.3 Os ydych yn defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau ar y wefan, byddwn yn gofyn i chi gytuno'n benodol â'r telerau a'r amodau hyn.

1.4 Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis; drwy ddefnyddio ein gwefan neu gytuno i'r telerau a'r amodau hyn, rydych yn cydsynio i ni ddefnyddio cwcis, yn unol â thelerau ein polisi cwcis.

2 Cydnabyddiaeth

2.1 Cafodd y ddogfen hon ei chreu yn defnyddio templed gan SEQ Legal.

3 Rhybudd hawlfraint

3.1 Hawlfraint (h) 2016 Cerdyn Eryri.

3.2 Yn amodol ar ddarpariaethau penodol y telerau a'r amodau hyn:

(a) rydym ni, ynghyd â'n trwyddedwyr, yn rheoli ac yn berchen ar holl hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill ein gwefan a'r deunydd sydd arni; a

(b) chedwir holl hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill ein gwefan a'r deunydd sydd arni.

4 Trwydded i ddefnyddio'r wefan

4.1 Gallwch:

(a) edrych ar dudalennau ein gwefan mewn porwr gwe;

(b) lawrlwytho tudalennau oddi ar ein gwefan i'w storio dros dro yn eich porwr gwe;

(c) argraffu tudalennau oddi ar ein gwefan;

(d) lawrlwytho ffeiliau PDF i'w cadw ar eich cyfrifiadur;

(e) ffrydio ffeiliau sain a fideo o'n gwefan; a

(f) defnyddio gwasanaethau ein gwefan drwy gyfrwng porwr gwe,

yn amodol ar ddarpariaethau eraill y telerau a'r amodau hyn.

4.2 Ac eithrio fel y caniateir yn benodol gan Adran 4.1 neu gan ddarpariaethau eraill y telerau a'r amodau hyn, ni ddylech lawrlwytho unrhyw ddeunydd oddi ar ein gwefan na chadw unrhyw ddeunydd o'r fath ar eich cyfrifiadur.

4.3 Dim ond ar gyfer eich dibenion personol a busnes eich hunan y cewch ddefnyddio ein gwefan, ac ni ddylech ddefnyddio ein gwefan at unrhyw ddibenion eraill.

4.4 Ac eithrio fel y caniateir gan y telerau a'r amodau hyn, ni ddylech olygu neu fel arall addasu unrhyw ddeunydd ar ein gwefan.

4.5 Oni bai eich bod yn rheoli neu yn berchen ar yr hawliau perthnasol yn y deunydd, ni ddylech:

(a) ailgyhoeddi deunydd oddi ar ein gwefan (gan gynnwys ailgyhoeddi ar wefan arall) heb gydnabod Cerdyn Eryri fel y ffynhonnell a heb gynnwys dolen i www.snowdoniapass.co.uk;

(b) werthu, rhentu nac is-drwyddedu deunydd oddi ar ein gwefan;

(c) fanteisio ar ddeunydd oddi ar ein gwefan at ddiben masnachol; neu

(d) ailddosbarthu deunydd oddi ar ein gwefan.

4.6 Er gwaethaf Adran 4.5, cewch ailddosbarthu ein cylchlythyr mewn print ac ar ffurf electronig i unrhyw berson.

4.7 Rydym yn cadw'r hawl i gyfyngu ar fynediad i rannau o'n gwefan, neu yn wir i'r wefan gyfan, yn ôl ein disgresiwn; rhaid i chi beidio osgoi neu fynd o amgylch, neu geisio osgoi neu fynd o amgylch, unrhyw fesurau sy'n cyfyngu ar fynediad i'n gwefan.

5 Defnydd derbyniol

5.1 Ni ddylech:

(a) ddefnyddio ein gwefan mewn unrhyw ffordd na chymryd unrhyw gamau sy'n achosi, neu a allai achosi, difrod i'r wefan neu nam i berfformiad, argaeledd neu hygyrchedd y wefan;

(b) ddefnyddio ein gwefan mewn unrhyw ffordd sy'n anghyfreithlon, yn anghyfreithiol, yn dwyllodrus neu'n niweidiol, neu mewn cysylltiad ag unrhyw bwrpas neu weithgaredd anghyfreithlon, anghyfreithiol, twyllodrus neu niweidiol;

(c) ddefnyddio ein gwefan i gopïo, storio, lletya, trosglwyddo, anfon, defnyddio, cyhoeddi na dosbarthu unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw ysbïwedd, firysau cyfrifiadurol, ceffylau Trojan, mwydod, cofnodwr trawiadau bysellau, gwreiddwedd neu feddalwedd cyfrifiadurol maleisus arall;

(d) gynnal unrhyw weithgareddau casglu data systematig neu awtomatig (gan gynnwys yn ddigyfyngiad, sgrapio, cloddio data, echdynnu data a chynaeafu data) ar neu mewn perthynas â'n gwefan heb ein caniatâd penodol ysgrifenedig;

(e) geisio mynediad na rhyngweithio fel arall â'n gwefan yn defnyddio unrhyw robot, corryn neu ddull awtomataidd arall, ac eithrio at ddiben mynegeio peiriant chwilio;

(f) dorri'r cyfarwyddebau a nodir yn y ffeil robots.txt ar gyfer ein gwefan; neu

(g) ddefnyddio data a gasglwyd o'n gwefan ar gyfer unrhyw weithgaredd marchnata uniongyrchol (gan gynnwys yn ddigyfyngiad marchnata e-bost, marchnata SMS, telefarchnata a phostio uniongyrchol).

5.2 Ni ddylech ddefnyddio data a gasglwyd oddi ar ein gwefan i gysylltu ag unigolion, cwmnïau neu unigolion neu endidau eraill, ac eithrio mewn cysylltiad â Cherdyn Eryri.

5.3 Rhaid i chi sicrhau bod yr holl wybodaeth a rowch i ni drwy ein gwefan, neu mewn perthynas â'n gwefan, yn wir, yn gywir, yn gyfredol, yn gyflawn a heb fod yn gamarweiniol.

6 Eich cynnwys: trwydded

6.1 Yn y telerau a'r amodau hyn mae "eich cynnwys" yn golygu pob gwaith a deunyddiau (gan gynnwys yn ddigyfyngiad destun, graffeg, delweddau, deunydd

sain, deunydd fideo, deunydd clyweledol, sgriptiau, meddalwedd a ffeiliau) yr ydych chi yn eu cyflwyno i ni neu i'n gwefan i'w storio neu i'w cyhoeddi, neu i'w prosesu, neu i'w trosglwyddo gan ein gwefan.

6.2 Rydych yn rhoi trwydded fyd-eang, na ellir ei thynnu yn ôl, nad yw yn unigryw ac sydd yn ddi-freindal i atgynhyrchu, i storio ac i gyhoeddi, gyda'ch caniatâd penodol chi, eich cynnwys ar ein gwefan ac mewn perthynas â hi.

6.3 Rydych yn rhoi i ni'r hawl i is-drwyddedu'r hawliau trwyddedu o dan Adran 6.2.

6.4 Rydych yn rhoi i ni'r hawl i ddwyn achos am dresmasu ar yr hawliau trwyddedig o dan Adran 6.2.

6.5 Rydych drwy hyn yn ildio eich holl hawliau moesol yn eich cynnwys i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith berthnasol; ac rydych yn gwarantu bod yr holl hawliau moesol eraill yn eich cynnwys wedi cael eu hepgor i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith berthnasol.

6.6 Heb leihau effaith ein hawliau eraill o dan yr amodau a'r telerau hyn, os byddwch yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y telerau a'r amodau hyn mewn unrhyw ffordd, neu os ydym yn amau yn rhesymol eich bod wedi torri'r amodau a'r telerau hyn mewn unrhyw ffordd, cawn ddileu, dadgyhoeddi neu newid eich cynnwys, yn rhannol neu yn llwyr.

7 Eich cynnwys: rheolau

7.1 Rydych yn gwarantu y bydd eich cynnwys yn cydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn.

7.2 Ni ddylai eich cynnwys fod yn anghyfreithlon neu'n anghyfreithlon, ni ddylai amharu ar hawliau cyfreithiol unrhyw un, ac ni ddylai fedru arwain at gamau cyfreithiol yn erbyn unrhyw berson (ym mhob achos yn unrhyw awdurdodaeth ac o dan unrhyw ddeddf berthnasol).

7.3 Rhaid i'ch cynnwys, a'r defnydd a wneir o'ch cynnwys gennym ni yn unol â'r telerau a'r amodau hyn beidio â:

(a) bod yn enllibus neu'n faleisus anwir;

(b) bod yn anllad neu'n anweddus;

(c) thorri unrhyw hawlfraint, hawl foesol, hawl cronfa ddata, hawl nod masnach, hawl dylunio, hawl wrth beri coel, neu hawl eiddo deallusol arall;

(d) thorri unrhyw hawl i hyder, hawl i breifatrwydd neu hawl o dan ddeddfwriaeth diogelu data;

(e) bod yn gyngor esgeulus neu gynnwys unrhyw ddatganiad esgeulus;

(f) bod yn gyfystyr ag anogaeth i gyflawni trosedd, cyfarwyddiadau ar gyfer cyflawni trosedd neu hybu gweithgareddau troseddol;

(g) bod mewn dirmyg llys, neu dorri unrhyw orchymyn llys;

(h) thorri cyfreithiau casineb ar sail hil neu grefydd neu fynd yn groes i ddeddfwriaeth gwahaniaethu;

(i) bod yn gableddus;

(j) bod yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth cyfrinachau swyddogol;

(k) thorri unrhyw rwymedigaeth gytundebol i unrhyw berson;

(l) dangos trais;

(m) bod yn bornograffig, anllad, awgrymog neu'n rhywiol eglur;

(n) bod yn anwir, ffug, anghywir neu gamarweiniol;

(o) chynnwys unrhyw gyfarwyddiadau, cyngor neu wybodaeth y gellir gweithredu arnynt a allai, pe gweithredir arnynt, achosi salwch, anaf neu farwolaeth, neu unrhyw golled neu ddifrod arall;

(p) chynnwys sbam;

(q) bod yn dramgwyddus, dichellgar, twyllodrus, bygythiol, difrïol, aflonyddgar, gwrthgymdeithasol, peryglus, atgas, camwahaniaethol neu ymfflamychol; nac

(r) achosi niwsans, anghyfleustra neu bryder diangen i unrhyw berson.

8 Gwarantau cyfyngedig

8.1 Nid ydym yn gwarantu nac yn honni:

(a) bod yr wybodaeth a gyhoeddir ar ein gwefan yn gyflawn nac yn gywir;

(b) bod y deunydd ar y wefan yn gyfoes; nac

(c) y bydd y wefan neu unrhyw wasanaeth ar y wefan yn parhau i fod ar gael.

8.2 Rydym yn cadw'r hawl i derfynu neu newid unrhyw un neu bob un o'n gwasanaethau ar y wefan, ac i roi'r gorau i gyhoeddi ein gwefan, ar unrhyw adeg yn ôl ein disgresiwn heb rybudd nac esboniad; ac eithrio i'r graddau y darperir yn benodol fel arall yn y telerau a'r amodau hyn, ni fydd gennych hawl i unrhyw iawndal neu daliad arall wrth derfynu neu newid unrhyw wasanaethau ar y wefan, neu os byddwn yn rhoi'r gorau i gyhoeddi'r wefan.

8.3 I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith berthnasol ac yn amodol ar Adran 9.1, rydym yn eithrio pob honiad a gwarant sy'n ymwneud â thestun y telerau a'r amodau hyn, ein gwefan a'r defnydd a wneir o'n gwefan.

9 Cyfyngiadau ac eithriadau ar atebolrwydd

9.1 Nid oes unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn a fydd yn:

(a) cyfyngu neu eithrio unrhyw atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod;

(b) cyfyngu neu eithrio unrhyw atebolrwydd am dwyll neu gamliwio twyllodrus;

(c) cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd mewn unrhyw ffordd na chaniateir dan y gyfraith berthnasol; neu a fydd yn

(d) eithrio unrhyw atebolrwydd na ellir ei eithrio dan y gyfraith berthnasol.

9.2 Mae'r cyfyngiadau a'r gwaharddiadau ar atebolrwydd a nodir yn Adran 9 ac mewn mannau eraill yn y telerau a'r amodau hyn:

(a) yn ddarostyngedig i Adran 9.1; a

(b) yn llywodraethu pob atebolrwydd sy'n codi o dan y telerau a'r amodau hyn neu sy'n ymwneud â thestun y telerau a'r amodau hyn, gan gynnwys atebolrwydd sy'n codi drwy gytundeb, drwy gamwedd (gan gynnwys esgeulustod) ac am dorri dyletswydd statudol, ac eithrio i'r graddau y darperir yn benodol fel arall yn y telerau a'r amodau hyn.

9.3 I’r graddau y mae ein gwefan a’r wybodaeth a’r gwasanaethau ar ein gwefan yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim, ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod o unrhyw fath.

9.4 Ni fyddwn yn atebol i chi mewn perthynas ag unrhyw golledion sy’n deillio o unrhyw ddigwyddiad neu ddigwyddiadau y tu hwnt i’n rheolaeth resymol.

9.5 Ni fyddwn yn atebol i chi mewn perthynas ag unrhyw golledion busnes, gan gynnwys (yn ddigyfyngiad) colled neu ddifrod i elw, incwm, refeniw, defnydd, cynhyrchiant, arbedion disgwyliedig, busnes, contractau, cyfleoedd masnachol neu ewyllys da.

9.6 Ni fyddwn yn atebol i chi mewn perthynas â cholli neu lygru unrhyw ddata, cronfa ddata neu feddalwedd.

9.7 Ni fyddwn yn atebol i chi mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod arbennig, anuniongyrchol neu ganlyniadol.

9.8 Rydych yn derbyn bod gennym ddiddordeb mewn cyfyngu ar atebolrwydd personol ein swyddogion a’n gweithwyr a, gan ystyried y diddordeb hwnnw, rydych yn cydnabod ein bod yn endid ag atebolrwydd cyfyngedig; rydych yn cytuno na fyddwch yn dod ag unrhyw hawliad yn bersonol yn erbyn ein swyddogion neu ein gweithwyr mewn perthynas ag unrhyw golledion a gewch mewn cysylltiad â’r wefan neu’r amodau a’r telerau hyn (ni fydd hyn, wrth gwrs, yn cyfyngu nac yn eithrio atebolrwydd yr endid atebolrwydd cyfyngedig ei hun dros weithredoedd neu ddiffyg gweithredu ein swyddogion a’n gweithwyr).

10 Torri’r amodau a’r telerau hyn

10.1 Heb leihau effaith ein hawliau eraill o dan yr amodau a’r telerau hyn, os byddwch yn torri’r telerau a’r amodau hyn mewn unrhyw ffordd, neu os ydym yn amau yn rhesymol eich bod wedi torri’r amodau a’r telerau hyn mewn unrhyw ffordd, cawn:

(a) anfon un neu ragor o rybuddion ffurfiol atoch;

(b) atal eich mynediad i’n gwefan dros dro;

(c) eich gwahardd yn barhaol rhag cael mynediad i’n gwefan;

(d) atal cyfrifiaduron sy'n defnyddio eich cyfeiriad IP chi rhag cael mynediad i'n gwefan;

(e) gysylltu ag unrhyw un neu â phob un o'ch darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a gofyn eu bod yn rhwystro eich mynediad i'n gwefan;

(f) ddechrau camau cyfreithiol yn eich erbyn, boed hynny am dorri contract neu fel arall.

10.2 Pan fyddwn yn atal neu yn gwahardd neu yn rhwystro eich mynediad at ein gwefan neu at ran o'n gwefan, rhaid i chi beidio â chymryd unrhyw gamau i osgoi cael ei atal, eich gwahardd neu eich rhwystro yn y fath fodd.

11 Amrywiad

11.1 Gallwn ddiwygio'r amodau a'r telerau hyn o bryd i'w gilydd.

11.2 Bydd y telerau a'r amodau diwygiedig yn berthnasol i ddefnyddio ein gwefan o ddyddiad cyhoeddi'r amodau a'r telerau diwygiedig ar y wefan, ac rydych drwy hyn yn ildio unrhyw hawl y gallech ei gael fel arall i gael eich hysbysu o ddiwygiadau i'r telerau a'r amodau hyn, neu i gael cydsynio iddynt.

12 Aseinio

12.1 Rydych drwy hyn yn cytuno y cawn aseinio, trosglwyddo, is-gontractio neu ymdrin fel arall â'n hawliau a / neu rwymedigaethau o dan yr amodau a'r telerau hyn.

12.2 Ni chewch chi heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw aseinio, trosglwyddo, is-gontractio neu ymdrin fel arall â'ch hawliau a / neu rwymedigaethau o dan yr amodau a'r telerau hyn.

13 Toradwyedd

13.1 Os cadarnheir gan unrhyw lys neu awdurdod cymwys arall bod darpariaeth o'r telerau a'r amodau hyn yn anghyfreithlon a / neu'n anorfodadwy, bydd y darpariaethau eraill yn parhau mewn grym.

13.2 Pe byddai unrhyw ddarpariaeth anghyfreithlon a/neu'n anorfodadwy yn y telerau a'r amodau hyn yn gyfreithlon neu'n orfodadwy pe cai rhan ohoni ei dileu, ystyrir bod y rhan honno i gael ei dileu, a bydd gweddill y ddarpariaeth yn parhau mewn grym.

14 Hawliau trydydd parti

14.1 Mae contract dan y telerau a’r amodau hyn er ein budd ni ac er eich budd chi, ac ni fwriedir iddo fod er budd na bod yn orfodadwy gan unrhyw drydydd parti.

14.2 Nid yw hawliau’r partïon dan gontract o dan y telerau a’r amodau hyn yn ddarostyngedig i gydsyniad unrhyw drydydd parti.

15 Cytundeb cyflawn

15.1 Yn amodol ar Adran 12.1, bydd y telerau a’r amodau, ynghyd â’n polisïau preifatrwydd a chwcis, yn ffurfio’r cytundeb cyfan rhyngoch chi a ni mewn perthynas â’ch defnydd o’n gwefan a bydd yn disodli pob cytundeb blaenorol rhyngoch chi a ni mewn perthynas â’ch defnydd o’n gwefan.

16 Y gyfraith ac awdurdodaeth

16.1 Bydd y telerau a’r amodau hyn yn cael eu llywodraethu a’u dehongli yn unol â chyfraith Lloegr.

16.2 Bydd unrhyw anghydfod sy’n ymwneud â’r telerau a’r amodau hyn yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

17 Ein manylion

17.1 Mae’r wefan hon yn eiddo i Atyniadau Eryri ac yn cael ei gweithredu ganddynt.

17.2 Rydym wedi ein cofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cofrestru 07620063, ac mae ein swyddfa gofrestredig yn Atyniadau Eryri, Y Ffôr, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PG.

17.3 Ein prif fan busnes yw Atyniadau Eryri, Y Ffôr, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PG.

17.4 Gallwch gysylltu â ni:

(a) drwy’r post, gan ddefnyddio’r cyfeiriad post a roddwyd uchod;

(b) drwy ddefnyddio ein ffurflen gyswllt ar y wefan;

(c) dros y ffôn 01766 810715

(d) drwy e-bost, gan ddefnyddio post@snowdoniapass.co.uk

18 Prynu Cerdyn Eryri

18.1 Ni chaiff unrhyw drafodion e-fasnach eu cynnal ar y wefan hon. Os ydych yn clicio ar ddolen ‘prynu cerdyn’, bydd hyn yn eich ailgyfeirio i Web Ticket Manager. Gallwch weld polisi preifatrwydd, telerau ac amodau a pholisi data Web Ticket Manager drwy glicio yma.

18.2 Bydd cardiau’n cael eu postio o fewn 5 diwrnod gwaith at yr enw a’r cyfeiriad a ddarperir ar yr archeb.

18.2 Bydd cardiau sy’n cael eu prynu ar-lein yn cael eu postio am ddim o fewn 5 diwrnod gwaith at yr enw a’r cyfeiriad a ddarperir ar yr archeb.

18.4 Gellir casglu cardiau a brynwyd drwy wefan Visit Britain o Ganolfan Groeso (cliciwch yma i weld rhestr o Ganolfannau Croeso yn ardal Eryri).